



# Y SGUTHAN

O'r gyfrol 'Caneuon Llafar Gwlad' gol. Roy Saer  
gyda chaniatâd caredig Amgueddfa Cymru.

(a)

1. Mi ad-rodd-af i - chwi bwt o stor - i, Mi dri - af fynd yn drwst- an  
5  
tros-ti, Ond chwaith ni ddwed - af ond y gwir, Y gwir a saif, dim ond y gwir

(a) Pennill 8 - Cynhwyswyd sill ychwanegol yma drwy ganu rhythm ♪ ♪ ♪ ar yr un nodyn (G G A).

- |  |  |
|--|--|
| 2. Am ddau lanc ifanc o'r plwy yma<br>Ryw noson aethant ffwrdd i hela;<br>Aeth un â'i wn a'r llall â'i gi,<br>Gael bod yn siŵr o ddal y pry.               | 6. Pan adawsant gynta geg y ci,<br>Wel, adref aethant hwy â hi,<br>A gofyn wnaent i wraig y tŷ<br>A wnâi ei chwicio am ei phlu.                      |
| 3. Fe gododd un i fyny ei ben,<br>Fe welodd sguthan ar y pren:<br>"Wel, cydia di yng ngwar y ci<br>Rhag ofn (i)ddo fyn o fy ngafael i".                    | 7. A gwraig y tŷ, pan aeth i bluo,<br>Fe glywai rywbeth yn ogl'uo,<br>A gofyn wnaeth i deulu'r tŷ<br>A glywent hwy ryw oglau cry.                    |
| 4. Wel, siarjo'r gwn wnaeth ar ôl hynny<br>A bacio'n ôl gael lle i 'nelu,<br>A'r llall yn crynu wrth fôn y pren<br>Rhag ofn i'r siots fynd oddeutu ei ben. | 8. 'Nôl i wraig y tŷ gael gwybod y cyfan,<br>Mai wedi trigo'r oedd y sguthan<br>Ac wedi syrthio i fforch y pren,<br>Nis gallai lai na chodi ei phen. |
| 5. Pan aeth yr ergyd gyntaf allan<br>Mi oedd 'na dwrw megis taran,<br>A rhedeg wnaent i'r lle a'r fan<br>Rhag ofn i'r ci gael mwy na'i ran.                | 9. 'Roedd wedi mynd yn ôl ei phris,<br>'Roedd wedi trigo ers pedwar mis,<br>A'r llanciau gadd eu siomi'n siŵr,<br>A'u swper hwy oedd brŵes ddŵr.     |

Tâp AWC 536. Recordiwyd yn ddeulais 01.07.63 gan Joseph Lloyd (gyrrwr lori, g.1896), Pant-y-wern, a Charadog Puw (ffermwr, g.1922), Foel Garthbeibio, sir Drefaldwyn. Cododd JL y gân pan oedd yn 14 oed, o glywed ei chanu gan Ellis Gittins, Llanwddyn, a chlywodd CP yr un gŵr yn ei chyflwyno yn ddiweddarach.

Cyhoeddwyd yr un alaw (eto'n deillio yn y pen draw o ganu Ellis Gittins) gan Mrs Enid Parry yn CCAGC, iv, 57. Recordiwyd y gân yn ddeulais gan yr Amgueddfa ac ychwanegwyd yma gerddoriaeth llais bas, gan fod canu 'Y Sguthan' yn dri llais hefyd yn arfer yn sir Drefaldwyn. Ni wyddys pwy bia'r geiriau.